

**PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R  
CARTREF I'R YSGOL.**

**DYDD MERCHER, 17 AWST 2022**

**PRESENNOL (Yn rhithwir)** Cyngorydd E.G. Thomas (Cadair)

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

G. Davies

D. Price

A. Vaughan Owen

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr

A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol

E. Anthony, Uwch Swyddog derbyn i ysgolion

A. Eynon, Prif Gyfieithydd

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31  
1JP - 10.00 - 10.08 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad am fuddiant personol.

**3. COFNODION**

**3.1 6ED GORFFENNAF 2022 – 10:00 YB**

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 (10:00am) gan eu bod yn gofnod cywir.

**3.2. 6ED GORFFENNAF 2022 - 10:10YB**

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 (10:10am) gan eu bod yn gofnod cywir.

**3.3. 6ED GORFFENNAF 2022 - 10:20YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2022 (10:20am) gan eu bod yn gofnod cywir.**

**3.4. 6ED GORFFENNAF 2022 - 10:30YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 (10:30am), gan eu bod yn gofnod cywir.)**

**3.5. 6ED GORFFENNAF 2022 - 10:40YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 (10:40am), gan eu bod yn gofnod cywir.)**

**3.6. 6ED GORFFENNAF 2022 - 10:50YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 (10:50am), gan eu bod yn gofnod cywir.)**

**3.7. 6ED GORFFENNAF 2022 - 11:00YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 (11:00am), gan eu bod yn gofnod cywir.)**

**3.8. 6ED GORFFENNAF 2022 - 11:10YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 (11:10am), gan eu bod yn gofnod cywir.)**

**3.9. 6ED GORFFENNAF 2022 - 11:30YB**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 (11:30am), gan eu bod yn gofnod cywir.)**

**4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi**

gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

**5. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD E.M. YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL**

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau ysgrifenedig yr apelydd ynghylch penderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod rhoi cludiant ysgol am ddim i E.M. i ysgol nad oedd yn ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac felly nid oedd yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym mholisi'r Cyngor ar gyfer darparu cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i amgylchiadau unigol yr achos, ynghyd â sylwadau'r swyddogion adrannol.

**PENDERFYNWD YN UNFRYDOL yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl am nad oedd E.M. yn mynychu'r ysgol agosaf nac ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, a hynny oherwydd dewis y rhieni.**

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**